CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: TREFNIADAU I HYBU CYFLE CYFARTAL 1999-2000

Cynllun

RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

1. CEFNDIR

2. CRYNODEB O DREFNIADAU'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL I SICRHAU CYFLE CYFARTAL

2.1 Y man cychwyn

2.3 Egwyddorion, polisïau a blaenoriaethau

2.4 Gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb

2.8 Arolwg Sylfaenol

2.15 Uchafbwyntiau/Arferion Gorau

2.18 Gwell Cymru.com

2.19 Dangosyddion Cydraddoldeb Allweddol

2.21 Crynodeb

3. Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

3.1 Sefydlu'r Pwyllgor

3.5 Crynodeb byr o'i weithgareddau hyd yma

3.11 Edrych at y dyfodol

Atodiadau

Atodiad A: Archwiliad Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol – Y Sefyllfa Sylfaenol

Atodiad B: Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal: Y Cylch Gwaith

xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx

RHAGAIR DRAFFT GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

Mae sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn nodwedd sylfaenol o unrhyw drefn ddemocrataidd fodern.

Rôl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yw sicrhau bod gan y Cynulliad drefniadau effeithiol er mwyn hybu'r egwyddor wrth inni gyflawni'n dyletswyddau a gwneud ein gwaith bob dydd. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r camau a gymerwyd hyd yma.

Mae'r Pwyllgor wedi lansio rhaglen eang o gynlluniau er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael sylw ym mhob un o'n polisïau, rhaglenni ac ymarferion. Yr ydym hefyd yn rhoi sylw brys i ymdrech y Cynulliad i weithredu argymhellion Ymchwiliad Stephen Lawrence, ac i degwch ein trefniadau wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Mae cryn dipyn i'w wneud o hyd ac yr wyf yn disgwyl i'r deuddeg mis nesaf fod yn gyfnod prysur a chynhyrchiol i'r Pwyllgor.

Fodd bynnag, mae cyfle cyfartal yn ystyriaeth bwysig i bawb yn y Cynulliad, yn wleidyddion a swyddogion fel ei gilydd. Yr wyf yn awyddus i'r Cynulliad ennill bri am ragoriaeth ym maes cydraddoldeb a bod yn ysbrydoliaeth i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a thu draw i'r ffin. Mae'n rhaid i gyfle cyfartal fod yn ganolog i holl waith y sefydliad.

Mae gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi bod yn addawol hyd yma, a byddwn yn egnïol wrth fynd i'r afael â'n cylch gwaith yn y dyfodol.

Edwina Hart AM

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

1. CEFNDIR

1.1 Hwn yw adroddiad blynyddol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei drefniadau cyfle cyfartal yn ôl amodau Adran 120 Deddf Llywodraeth

Cymru 1998. Mae hefyd yn cynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (yn rhan 3) yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 14.2.

2. CRYNODEB O DREFNIADAU'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL I SICRHAU CYFLE CYFARTAL

Y Man Cychwyn

2.1 Pan sefydlwyd y Cynulliad roedd cydraddoldeb yn cael ei ganolbwyntio ar y cyfan ar faterion yn ymwneud â staff. Roedd polisi cyfle cyfartal ar gael, a oedd yn ymwneud â thriniaeth staff, ac yn dangos yn glir fod y Swyddfa Gymreig yn "gyflogwr cyfle cyfartal". Ar y pryd, fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymrwymiad clir nac ymagwedd strwythurol ynghylch ystyried materion cydraddoldeb yn natblygiad polisïau a rhaglenni'r Adran.

2.2 Darparwyd ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion cydraddoldeb trwy gyfrwng hyfforddiant a seminarau a weinyddwyd gan yr Is-adran Rheoli Personél. Bu'r rhain o gymorth i staff ddatblygu dealltwriaeth o'r syniad o gyfle cyfartal a'r materion a all ddylanwadu arno, gan gynnwys ymddygiad personol. Yn ogystal, buont yn fodd i ddarparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cyfleoedd cyfartal a rhoesant gyfle i staff drafod sut y gellid gweithredu'r ddeddfwriaeth.Yn ogystal â hyfforddiant, cyflwynodd y Swyddfa Gymreig ystod o bolisïau i hybu cyfle cyfartal i bob aelod o'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys arferion gwaith hyblyg, gweithio rhan-amser, darpariaeth gofal plant, cymorth i staff anabl a chyflwyno cynllun Cymrodoriaeth Windsor er mwyn noddi is-raddedigion o gefndiroedd lleiafrifol du neu ethnig a chodi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Sifil fel cyflogwr.

Egwyddorion, polisïau a blaenoriaethau

2.3 Mae sefydlu'r Cynulliad wedi rhoi gwir gyfle i symud ymlaen â materion cydraddoldeb oherwydd mae'r Cynulliad wedi'i ymrwymo'n statudol i gydraddoldeb yn ôl adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Ar wahân i'r ymrwymiad hwnnw, mae'r Cynulliad yn cydnabod ei ddyletswydd moesol i sicrhau cyfle cyfartal a hynny'n unol â'i nod i fod yn gynhwysol – gan gynrychioli a gwasanaethu holl bobl Cymru yn gyfartal. Oddi mewn i'r Cynulliad mae yna ddymuniad diffuant ac ymrwymiad i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anfantais.

Gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb

2.4 Er mwyn symud ymlaen â rhwymedigaethau cydraddoldeb y Cynulliad mewn ffordd gydlynol a chyson, sefydlwyd yr Uned Polisi Cydraddoldeb oddi mewn i'r Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus (PEP). Mae'r Uned yn ffynhonnell adnoddau cyffredinol i holl swyddogion y Cynulliad, gan ddarparu cyfarwyddyd a chyngor ynghylch polisi ar faterion cydraddoldeb.

2.5 Mae amcanion yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn disgyn i bedwar prif faes:

- gweithredu fel catalydd ar gyfer newid, a hybu newid;
- darparu canolfan o arbenigedd a chyngor yn ymwneud ag arferion gorau;
- fel rhan o'r ddyletswydd uchod, yn cynnal deialog â chyrff sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol neu grwpiau o bobl dan anfantais;
- cynorthwyo a chefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

2.6 Yn ystod ei flwyddyn gyntaf mae'r Uned wedi:

- cwblhau arolwg cydraddoldeb er mwyn cael gwybodaeth sylfaenol ynghylch y graddau y mae cyfle cyfartal yn cael ei ystyried yn barod.
- darparu ffynhonnell ganolog o adnoddau ar gyfer gweddill y Cynulliad, ar gyfer cyngor a chyfarwyddyd ynghylch creu cyfleoedd cyfartal ym meysydd polisi;
- cadw i fyny â deddfwriaeth a mentrau cydraddoldeb cenedlaethol eraill er mwyn rhoi gwybod i'r is-adrannau polisi pan fo deddfwriaeth yn debygol o effeithio ar eu meysydd cyfrifoldeb, er enghraifft y Ddeddf Iawnderau Dynol; y Mesur Mewnfudo a Nodded; Adroddiad MacPherson i Lofruddiaeth Stephen Lawrence;
- gweithio gydag Is-adrannau er mwyn datblygu a chydlynu meysydd polisi â blaenoriaeth;
- arbrofi a phrofi ymagweddau wrth ymarfer cyfle cyfartal ac wedi rhannu gwybodaeth am arferion gorau;
- ystyried goblygiadau mentrau polisi'r DU i Gymru;
- cysylltu â grwpiau mewnol ac allanol er mwyn nodi mentrau penodol i'w datblygu, yn enwedig ym meysydd Hil, Anabledd a Rhyw;
- adeiladu ar berthynas dda gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol; y Comisiwn Cyfle Cyfartal ac Anabledd Cymru/y Comisiwn Hawliau Anabledd;
- adolygu trefniadau ar gyfer ymgynghori â chyrff cydraddoldeb yn y sector gwirfoddol yng Nghymru drwy ddatblygu mecanweithiau ymgynghori effeithiol i roi barn eu haelodau gerbron y Cynulliad.

2.7 Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn cynorthwyo'r Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal. Mae hyn wedi cynnwys cynnig cyngor a chyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â pholisi cydraddoldeb, ymateb i ohebiaeth ar faterion cydraddoldeb, cydlynu gofynion yr Adroddiad Blynyddol a chynorthwyo gyda chylch gwaith archwilio / monitro y Pwyllgor.

Arolwg Cydraddoldeb Sylfaenol

2.8 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 1999, cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal bapur a oedd, drwy geisio cychwyn y broses o roi cydraddoldeb ym mhrif ffrwd y Cynulliad, yn cymeradwyo mynd i'r afael â hyn mewn pedwar cam.

2.9 Y cam cyntaf oedd i'r Uned Polisi Cydraddoldeb gynnal cyfweliadau sylfaenol ag is-adrannau polisi'r Cynulliad er mwyn darganfod i ba raddau y mae hil, rhyw ac anabledd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau; pa amcanion a thargedau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal; a pha ddata dadagregedig sydd ar gael er mwyn monitro canlyniadau'r polisïau hynny. Cytunodd uwch reolwyr y Cynulliad ar fethodoleg o gyfweliadau lled-strwythurol ar gyfer yr arolwg ym mis Hydref 1999.

2.10 Cynhaliwyd y cyfweliadau lled-strwythurol â'r 57 o grwpiau, is-adrannau ac unedau'r Cynulliad rhwng mis Hydref 1999 a dechrau mis Rhagfyr 1999. Gwnaed y gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu cynnwys y cyfweliadau (a gynhyrchodd adroddiadau dadansoddiadol unigol i bob Is-adran) rhwng mis Rhagfyr 1999 a mis Mawrth 2000.

2.11 Cwblhawyd asesiad annibynnol o'r adroddiadau dadansoddiadol yn gynnar ym mis Ebrill. Gwnaed yr asesiad gan yr ymgynghorwyr cydraddoldeb i'r Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal (y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE); y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC); ac Anabledd Cymru) a darparodd ar gyfer pob is-adran, raddau cydberthynol a safonol (o ddiffyg i ragoriaeth) ar y pum maen prawf gwahanol a brofwyd; nodau busnes; ymrwymiad ar y lefel uchaf; monitro, hyfforddi ac ymgynghori). Defnyddiwyd yr asesiadau unigol o'r is-adrannau wrth nodi'r sefyllfa ar gyfer y Cynulliad yn gyffredinol. Nodir manylion y sefyllfa hon yn **Atodiad A** i'r adroddiad hwn.

2.12 Mae'r sefyllfa sylfaenol hon yn rhoi syniad o'r graddau y mae materion cyfle cyfartal yn cael eu nodi a'u monitro ar hyn o bryd, y sylw a roddir iddynt, lefel yr wybodaeth am faterion o'r fath a'r ymroddiad iddynt oddi mewn i bob un o Is-adrannau'r Cynulliad. Mae'r asesiad yn awgrymu fod

gan y Cynulliad lefel uchel a chyson o ymwybyddiaeth ynghylch materion cyfle cyfartal, a bod yna lawer o arferion da. Fodd bynnag, yn aml mae'r arferion da hyn yn ddealledig yn hytrach na phenodol. Seiliwyd y graddau ar gyfartaledd, ond at ei gilydd maent yn darparu sail dda fel y gall y Cynulliad yn gyffredinol symud yn ei flaen a gweithredu'n ymarferol a mesuradwy yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

2.13 Mae'r rhan fwyaf o'r darganfyddiadau a'r casgliadau yn gyffredin i nifer o is-adrannau. Er enghraifft, fel casgliad i'r darganfyddiadau ymgynghorol, mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn annog cael mwy o ddeialog rhwng y grwpiau / cymunedau dan anfantais a'r is-adrannau polisi, gan ganolbwyntio i ddechrau ar hil, anabledd a rhyw. Mater i'r is-adrannau yw ystyried a yw'n well cael deialog ar lefel is-adrannol neu a fyddai rhai cysylltau ar lefel grp yn help ar gyfer gwell golwg cyffredinol.Yr hyn sydd hefyd yn glir yw'r angen i bawb yn y Cynulliad gymryd cyfrifoldeb gweithredol am gydraddoldeb ym meysydd eu pynciau eu hunain, ac i ddeall yr angen am weithredu parhaus i fewnblannu ('prif ffrwd') cydraddoldeb ym musnes a swyddogaethau'r Cynulliad.

2.14 Mae'r arolwg hwn yn ystod y flwyddyn gyntaf i'r Cynulliad weithredu yn bwysig oherwydd bydd angen i'r Cynulliad roi arweiniad clir i gyrff eraill yng Nghymru ynghylch gosod cydraddoldeb ym mhrif ffrwd datblygu polisïau. Mae'n debyg y bydd ymagwedd y Cynulliad yn denu cryn sylw. Mae yna reidrwydd cyfreithiol i fynd ymlaen â materion cydraddoldeb oherwydd rhwymedigaeth i roi sylw dyladwy i gydraddoldeb ym musnes a gweithgareddau'r Cynulliad, yn unol ag adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a'r ddeddfwriaeth newydd sy'n debygol ar gyfer y DU fel rhan o'r Mesur Cysylltiadau Hiliol (Gwellant), yn ymrwymo pob corff cyhoeddus i fod â dyletswydd i hybu cydraddoldeb, gan ddechrau gyda chydraddoldeb hiliol. Yn ogystal, mae Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud ymrwymiad cadarn i fynd ymlaen â chydraddoldeb, ac fe wnaeth ymrwymiad cyhoeddus ar y mater yn ei raglen i gyflenwi "Gwell Llywodraeth" yng Nghymru, sydd ag "Ymgorffori cydraddoldeb yn ein holl bolisïau ac arferion" ymhlith ei themâu. Os gall y Cynulliad, gyda chymorth mentrau fel Gwell Llywodraeth, lwyddo i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn benodol yn y ffordd y mae'n datblygu ac yn gweithredu ei bolisïau (ac felly ei wneud yn rhan hanfodol o gynllunio a monitro busnes (prif ffrwd)), bydd ganddo system sy'n haws ar gyfer pob Is-adran (dim cynlluniau cyfle cyfartal atodol) ac yn fwy effeithiol o ran hybu cyfle cyfartal a chynwysoldeb.

Uchafbwyntiau/Arferion Gorau

2.15 Wrth geisio rhoi cydraddoldeb ym mhrif ffrwd y Cynulliad, cafwyd dechreuad positif nid yn unig am ei bod yn rheidrwydd arnom i wneud hynny, nac oherwydd rhwymedigaethau moesol , ond am ei bod yn gwneud synnwyr da o ran busnes i wneud defnydd llawn o dalent ac addewid pawb.

2.16 Mae un o'r canlyniadau ymarferol i'r gwaith a wnaed hyd yma yn ymwneud â'r hyn a gyflawnwyd eisoes drwy gynnal yr arolwg cydraddoldeb. Bu canlyniad y cyfweliadau lled-strwythurol a gynhaliwyd o bwys mewn codi'r ymwybyddiaeth o gydraddoldeb oddi mewn i bob un o'r is-adrannau a gafodd eu holi. Mae'n anodd pwyso a mesur hyn o ran yr union effaith neu ddylanwad ond gellir gwneud hynny â'r galw cynyddol a pharhaus gan is-adrannau am gyfarwyddyd a chyngor yr Uned Polisi Cydraddoldeb ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

2.17 Ffaith bwysig y dylid ei chydnabod yw'r arfer da sy'n bodoli eisoes (ond na thynnir sylw ato'n aml) mewn nifer o feysydd ac is-adrannau oddi mewn i'r Cynulliad, ynghyd â pharodrwydd i fynd ymlaen â chydraddoldeb. Ymhlith yr enghreifftiau o bwys mae:

i. yr ymrwymiad ar y lefel uchaf a ddangoswyd gan Benaethiaid yr Is-adrannau yn y seminarau a gynhaliwyd ganddynt er mwyn cyflwyno'r arolwg sylfaenol;
ii. gwaith ar fonitro effeithiau drwy gyfrwng dangosyddion perfformiad, sy'n digwydd yn Iechyd, a fydd yn ceisio nodi er enghraifft lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r gymuned ethnig leiafrifol;

iii. y gwaith sy'n digwydd ar sail datblygu monitro ethnig mewn ysgolion, sy'n cael ei wneud gan yr Is-adran Addysg;
iv. y prosesau ymgynghori cynnar gan yr Is-adran Dai, sydd wedi cynhyrchu adroddiad penodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion a dyheadau y gymuned ethnig leiafrifol.

Mae'r camau pendant hyn yn addo'n dda ar gyfer y dyfodol ond nawr bydd yn rhaid adeiladu ar y sylfaen drwy gyfrwng gweithredu ymarferol os yw'r Cynulliad yn mynd i ragori mewn cydraddoldeb.

Gwell Cymru.com

2.18 Mae hybu diwylliant sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac sy'n sicrhau cyfle cyfartal yn un o'r tair o brif themâu a gwerthoedd sy'n ganolog i'r ddogfen Gwell Cymru.com a lansiwyd ym mis Mai 2000. Mae'r ddogfen yn nodi'r weledigaeth hirdymor am Gymru well: cymdeithas oddefgar sy'n mynd i'r afael ag anghenion yr holl grwpiau cymdeithasol a phawb yn cael cyfle i chwarae rhan lawn.

2.19 Mae nifer o bolisïau a mentrau yn cael eu cyflwyno rhwng nawr a mis Mawrth 2003 er mwyn helpu cyflawni amcanion y ddogfen 'Gwell Cymru'. Mae enghreifftiau o'r polisïau a'r mentrau a fydd yn cyfrannu at hybu cyfle cyfartal yn cynnwys: strategaeth gofal plant a gafodd ei chyflwyno i ddarparu cyfleoedd gofal a datblygu i blant a fydd, yn ei dro, yn caniatáu i'r gofalwyr sylfaenol ddychwelyd i'w gwaith os ydynt yn dymuno gwneud hynny; pobl o grwpiau sydd, yn draddodiadol, heb gynrychiolaeth ddigonol ar fyrddau ein cyrff cyhoeddus yn cael eu hannog i gynnig eu hunain ar gyfer swydd; Cronfeydd Mynediad Myfyrwyr yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch i helpu unigolion a fyddai fel arall yn methu manteisio ar addysg uwch; mentrau i helpu i wella cyraeddiadau disgyblion nad yw Saesneg na Chymraeg yn iaith gyntaf iddynt; sicrhau bod cwricwlwm yr ysgolion yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau ac yn mynd i'r afael â stereoteipio rhyw a hil; cynlluniau i hybu cyfle cyfartal fel un o ofynion Cronfeydd Strwythurol Ewrop; Strategaeth Oes Wybodaeth i helpu i greu cyfleoedd i bobl â namau corfforol neu synhwyraidd.

Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad manwl ar ei gynnydd bob blwyddyn a bydd hwn ar gael yn gyffredinol er mwyn i'r datblygiadau gael eu hasesu.

Dangosyddion Cydraddoldeb Allweddol

2.20 Mae'r Arolwg Sylfaenol a ddisgrifiwyd uchod yn darparu sail a fydd yn galluogi'r Cynulliad i fonitro a mesur ei gynnydd gyda materion cydraddoldeb, ac yn y flwyddyn ganlynol i adrodd ar ei weithrediadau a chynnydd. Er mwyn cyflawni hyn bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb, ynghyd ag is-adrannau unigol y Cynulliad, yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan bob is-adran drwy ddefnyddio'r pum maen prawf a brofwyd yn yr arolwg (nodau busnes; ymrwymiad ar y lefel uchaf; monitro, hyfforddi ac ymgynghori). Caiff y mesuriadau ansoddol yn y sefyllfa sylfaenol ar gyfer eleni eu diweddaru gyda golwg ar ar yr adolygiad hwn, a chynhyrchir adroddiad a fydd yn nodi'r sefyllfa ddiwygiedig, ynghyd â'r dystiolaeth a arweiniodd at yr asesiad. Y nod yn y pen draw yw i'r Cynulliad gyrraedd sefyllfa o ragoriaeth mewn perthynas â chydraddoldeb.

Crynodeb

2.21 Yn y flwyddyn gyntaf hon cafwyd dechreuad da wrth geisio rhoi cydraddoldeb yn y brif ffrwd. Mae'r dasg yn un gymhleth a sensitif iawn, ond mae hefyd yn gosod her gyffrous, ond os ymgymerir â'r dasg mewn ffordd bositif bydd pobl Cymru ar eu helw'n sylweddol. Yn dilyn yr Arolwg

Sylfaenol, mae gennym y sail erbyn hyn ar gyfer gwneud y math o gynnydd ymarferol sydd ei angen.

2.22 Mae darganfyddion yr arolwg, o ran eu natur, yn oddrychol i raddau. Fodd bynnag, ni ddylai hyn amharu ar ddilysrwydd nac amcan yr arolwg, sef dod o hyd i fan cychwyn fel y gallai'r Cynulliad symud yn ei flaen o'r fan honno. Cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd pob grp/is-adran yn nodi blaenoriaethau gwahanol: maent yn fwy cyfarwydd â'u hamcanion busnes, a medrant gynnig argymhellion mwy penodol o lawer. Y peth pwysig yw nodi blaenoriaethau - wedi'u seilio, pryd bynnag y bo modd, ar sylwadau y rhai sy'n cynrychioli grwpiau neu gymunedau dan anfantais – a chael ymrwymiad i gyflenwi unrhyw weithredu neu dargedau a nodir. Mae'n bosibl y bydd Is-adrannau/Grwpiau yn nodi angen am gyngor neu gymorth ymarferol gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb i fynd ar drywydd mater penodol i'w weithredu.

2.23 Nid tasg fach yw rhoi cydraddoldeb yn y brif ffrwd, oherwydd yn y bôn mae'n ymwneud â newid gwerthoedd, credoau ac agweddau unigolion ac, o ganlyniad i hyn, ddiwylliant corff. Dim ond drwy gyfrwng gweithredu ymarferol y gellir cyflawni hyn. Dim ond cychwyn yw'r arolwg cydraddoldeb cyntaf hwn gan y Cynulliad i asesu sefyllfa gyfredol y Cynulliad; bydd angen i'r gweithredu ymarferol ddilyn hyn.

2.24 Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn allweddol yn y cyfnod cynnar hwn o ddatblygu. Mae hwn yn faes y mae angen ei ystyried ar frys oherwydd mae'n annhebyg y bydd dulliau confensiynol o hyfforddi yn llwyddo i newid gwerthoedd a chredoau er mwyn i'r Cynulliad fedru rhoi cydraddoldeb yn y brif ffrwd. Bydd hyn yn flaenoriaeth i'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn sy'n dod er mwyn helpu llunio ymagweddau arloesol ynghylch codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb.

2.25 Mae'r ffaith fod y Cynulliad yn gorff corfforaethol cynhwysol yn golygu, ymhlith pethau eraill, nad yw cydraddoldeb yn gyfrifoldeb i unrhyw un person, uned, cangen, is-adran neu Grp. Mae'n gyfrifoldeb i bob un: yn unigol ac ar y cyd. Mae'n bwysig, yn ystod y flwyddyn sy'n dod, fod hyn yn cael ei dderbyn a'i ddeall gan bawb a bod cydraddoldeb yn dod yn rhywbeth naturiol i bawb yn y Cynulliad yn eu gwaith bob dydd.

Uned Polisi Cydraddoldeb

xxxx

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac Anabledd Cymru/y Comisiwn Hawliau Anabledd arfaethedig – i fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor fel ymgynghorwyr yn unol â Rheol Sefydlog 14.4.

3.4 Mae Rheol Sefydlog 14 yn disgwyl i'r pwyllgor roi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail **rhyw, hil neu anabledd**. Cytunodd yr aelodau y dylai'r pwyllgor ddechrau ar ei waith drwy roi sylw arbennig i'r tri maes hyn, ond nodwyd hefyd bod angen ystyried mathau eraill o wahaniaethu a dieithrwch cymdeithasol, gan gynnwys oed, credoau crefyddol a gogwydd rhywiol.

Crynodeb byr o'i weithgareddau hyd yma

3.5 Mae'r pwyllgor wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu rhaglen weithredu gychwynnol gyda gweithgareddau sy'n cwmpasu'r holl feysydd pwnc ac a gynlluniwyd i hybu cyfle cyfartal yng Nghymru. Yr amcan yw rhoi rôl a ddiffiniwyd yn glir i bob rhan o'r Cynulliad er mwyn symud ymlaen â;'r agenda, gyda'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn monitro'r cynnydd wrth i'r rhaglen gael ei gweithredu ym mhob ardal.

3.6 Cytunwyd ar **raglen waith** mewn pedwar cam er mwyn ymgorffori cydraddoldeb yng ngwaith pob rhan o'r Cynulliad:-

- archwiliad sylfaenol i ddarganfod i ba raddau yr ystyrir hil, rhyw ac anabledd yn y polisïau sy'n bodoli (gan gynnwys personél); pa amcanion a thargedau sy'n bodoli sy'n cynnwys elfen o gyfle cyfartal; a pha ddata dadagregedig sydd ar gael.

- pob un o Ysgrifenyddion y Cynulliad i dderbyn adroddiad ar gyfle cyfartal oddi wrth yr is-adrannau perthnasol. Bydd pob adroddiad yn nodi'r sefyllfa sylfaenol yn gryno a'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gweithredu.

- y Pwyllgor Cyfle Cyfartal hefyd i ystyried y dadansoddiad sylfaenol a'r adroddiadau. Bydd yn cynnig sylwadau a chyngor ynghylch y gweithredu, amcanion a thargedau arfaethedig ar sail y sefyllfa'n gyffredinol a'r blaenoriaethau a nodwyd gan gyrff allanol.

- Ysgrifenyddion y Cynulliad i gymeradwyo cynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer eu maes cyfrifoldeb. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys adroddiad blynyddol y Cynulliad a'r rhaglen weithredu ar gyfer cyfle cyfartal. Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn adolygu'r adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer dadl.

Er y cymerwyd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau'r archwiliad sylfaenol, mae'r canlyniadau'n ddadlennol a thrylwyr; ac maent yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer gweithredu pellach drwy gydol y flwyddyn nesaf.

3.7 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol sicrwydd i'r aelodau y byddai lefel y staffio yn yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn ddigonol i'w galluogi i gwblhau'r rhaglen waith y cytunwyd arni. Byddai gan y Pwyllgor ran bwysig iawn mewn goruchwylio cynllun gweithredu'r Uned a chytuno ar ei gynnwys.

3.8 Teimlwyd hefyd fod **hyfforddiant mewn cyfle cyfartal** i bob Aelod a swyddog hefyd yn flaenoriaeth, yn enwedig i'r rhai a fyddai'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus. Cymeradwyodd Aelodau argymhellion ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal ymhlith ACau, a sicrhau fod hyfforddiant mewn cydraddoldeb yn hanfodol i bawb sy'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus. Roedd y rhain yn cynnwys holiadur elfennol ynghylch argaeledd Aelodau o'r Cynulliad a'u profiad a'u gwybodaeth am faterion cydraddoldeb fel y gellid targedu hyfforddiant yn effeithiol.

3.9 Roedd gan Adroddiad MacPherson ar lofruddiaeth **Stephen Lawrence** oblygiadau difrifol i holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac nid oedd yn ymwneud yn unig â digwyddiad hiliol unigryw yn Llundain. Gwnaeth yr Adroddiad 70 o argymhellion o dan 13 o brif benawdau â goblygiadau i gyrff o'r Cynulliad i gyflogwyr bach. Un o'r prif feysydd i fynd i'r afael â hwy oedd addysg. Roedd hi'n hanfodol i gymell pobl ifanc i ymwneud â chyfle cyfartal.
Gwahoddodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant, Rosemary Butler, gyda chefnogaeth ACCAC ac Estyn, i amlinellu sut oedd argymhellion yr Adroddiad ar addysg yn cael eu gweithredu yng Nghymru.
Gyda golwg ar y drafodaeth hon, gofynnwyd i swyddogion lunio cynllun gweithredu er mwyn symud ymlaen â'r argymhellion perthnasol mewn ymgynghoriad â gweithgor o wirfoddolwyr o'r Pwyllgor.

3.10 Cafodd nifer o faterion eraill hefyd eu hystyried gan y Pwyllgor:

- dangosodd y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd i'r Cynulliad. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cyllid i gadw Aelodau mewn cysylltiad â'r datblygiadau ynghylch adeilad newydd i'r Cynulliad a threfniadau mynediad.

- golwg gyffredinol ar berfformiad ynghylch materion cydraddoldeb oddi mewn i'r NHS yng Nghymru.

- Mae Adran 107 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn atal y Cynulliad rhag gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â Deddf Iawnderau Dynol 1998. Er taw'r Swyddfa Gartref sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Ddeddf Iawnderau Dynol, mae gan y Cynulliad ran bwysig i'w chwarae mewn sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu yng Nghymru. Mae gan hawliau defodol oblygiadau i lawer o swyddogaethau'r Cynulliad a'r Pwyllgor oedd y fforwm naturiol i gadw golwg ar y cynnydd.

- yr Her Arweiniad sy'n gwahodd y rhai sydd mewn sefyllfaoedd dylanwadol, ar frig cwmnïau a sefydliadau (gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol), i fod ar y blaen wrth hybu cydraddoldeb hiliol.

- y Gyngres Amrywiaeth Ddiwylliannol Fyd-eang 2000 a oedd i fod i gael ei chynnal yng Nghaerdydd rhwng 20 a 22 Mawrth 2000. Pwrpas y Gyngres fyddai ysgogi dadl ryngwladol am atebion ymarferol i amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol.

- y Bwlch Cyflogau rhwng dynion a menywod. Mae hwn yn dal i fod yn broblem neilltuol yng Nghymru 30 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf Cyflog Cydradd ddod i rym.

- cyfraniad y DU i gynhadledd y Cenhedloedd Unedig, Beijing Plus Five, yn Efrog Newydd ym mis Mehefin 2000. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar Platform for Action on Women y Cenhedloedd Unedig. Roedd Aelodau'n eiddgar i sicrhau fod cyfraniad y DU yn rhoi ystyriaeth i natur neilltuol materion sy'n ymwneud â menywod yng Nghymru.

- gwaith y Comisiwn Hawliau Anabledd a ddaeth i rym ar 25 Ebrill 2000. Nod y Comisiwn yw cael 'cymdeithas lle gall yr holl bobl anabl gyfranogi'n llawn fel dinasyddion cyfartal'.

Edrych at y dyfodol

3.11 Bydd y strategaeth o roi cyfle cyfartal yn y brif ffrwd yn dal i fod yn brif flaenoriaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn sy'n dod a bydd angen i'r Pwyllgor gadw llygad agos ar sut mae rhoi'r rhaglen weithredu ar waith yn dod yn ei flaen ym mhob ardal.

3.12 Bydd angen i'r Pwyllgor barhau i ddangos arweiniad a bydd pwyslais cynyddol ar rôl aelodau'r Pwyllgor mewn hybu ystyried cydraddoldeb yn eu pwnc ac mewn pwyllgorau eraill o'r Cynulliad. Bydd y Pwyllgor hefyd yn archwilio polisïau cydraddoldeb cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

3.13 Fodd bynnag, mae hefyd yn hanfodol i bwysleisio'r neges bod cyfle cyfartal yn gyfrifoldeb corfforaethol ac yn thema graidd, a rhaid iddo ddylanwadu ar bolisi. Bydd angen i weithredu'r egwyddor o gyfle cyfartal ddod yn rhywbeth naturiol i bawb yn eu gwaith bob dydd. Dylid ei ystyried yn rhan hanfodol o ymagwedd broffesiynol.

3.14 Golyga hyn y bydd angen i'r Pwyllgor ymdrechu fwyfwy i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ledled y Cynulliad Cenedlaethol. Mae angen i bob rhan o'r Cynulliad ddatblygu deialog â'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau dan anfantais a llunio'i bolisïau ar sail y cyngor a'r cyfarwyddyd sy'n cael eu darparu ganddynt.

Adolygiad Blynyddol

3.15 Bydd nifer o bynciau'n cael eu hadolygu yn flynyddol gan y Pwyllgor.

3.16 Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar strategaeth sy'n ceisio sicrhau fod yna fframwaith addas i gefnogi'r Cynulliad, Ysgrifenyddion y Cynulliad a phob pwyllgor wrth iddynt hybu cyfle cyfartal. Gyda'r fframwaith hwnnw'n cael ei sefydlu, mae angen iddo sicrhau ei fod yn darparu blaenoriaethau a thargedau clir er mwyn mesur cyflawniadau'r Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y targedau a nodir yn Gwell Cymru.com (paragraff 2.18 uchod) a'r mesurau cydraddoldeb allweddol a nodir ym mharagraff 2.20 uchod er mwyn barnu cynnydd.

3.17 Mae'r Prif Ysgrifennydd hefyd wedi gwahodd y Pwyllgor i fonitro gweithredu argymhellion y Tasglu Hawliau Anabledd (DRTF).

Archwiliad cyson o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBau)

3.18 Bydd arweinyddiaeth y Pwyllgor mewn materion cydraddoldeb yn cynnwys annog cyrff eraill yng Nghymru, gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBau), i ddilyn polisïau cydraddoldeb. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu archwilio polisïau ac arferion cydraddoldeb oddi mewn i ASPBau ac Awdurdodau Iechyd dewisedig. Mae pob ASPB yn cael Archwiliad Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol bob pum mlynedd, a gellir defnyddio archwiliad o'r fath i archwilio cydraddoldeb. Bydd hefyd yn briodol i ystyried cydraddoldeb pan fydd Pwyllgorau Pwnc ac Ysgrifenyddion y Cynulliad yn archwilio Cynlluniau Corfforaethol ASPBau.

Pynciau ar gyfer adroddiadau manwl

3.19 Mae angen i'r Cynulliad fod ar y blaen yng Nghymru wrth fynd i'r afael â'r mater sylfaenol o hiliaeth sefydliadol gan ystyried Ymchwiliad **Stephen Lawrence**. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu Grp Llywio a gweithgor bach o swyddogion a chyrff allanol priodol i symud ymlaen â'r argymhellion ar addysg ac eraill yn adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence. Bydd y Pwyllgor yn disgwyl ystyried argymhellion ar:

- gweithredu ymarferol a phriodol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence yn effeithiol yng Nghymru;
- sut dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff eraill gyflawni eu cyfrifoldebau a'r dyletswyddau yn unol â'r adroddiad;
- mecanweithiau ar gyfer adrodd, cynghori a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion a'r argymhellion yn yr adroddiad;

- nodi a lledaenu arferion gorau yn effeithiol a phositif a mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i geisio atal hiliaeth o bob math.

3.20 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ceisio cael gwell trawsdoriad o bobl i wneud cais am **swyddi cyhoeddus**. Cafodd gweithgor ei sefydlu er mwyn cynnig cyngor ar raglen weithredu a luniwyd er mwyn ceisio cael pobl sy'n gynrychiadol o boblogaeth Cymru i gynnig am swyddi cyhoeddus, ac felly sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'n well y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Bydd y Pwyllgor yn disgwyl ystyried argymhellion sy'n ceisio:

- denu ymgeiswyr ar gyfer swyddi cyhoeddus yng Nghymru o blith menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, mewn niferoedd sy'n gynrychiadol o bob un o'r grwpiau hynny yn y gymdeithas.
- annog ceisiadau am swyddi cyhoeddus oddi wrth drawsdoriad ehangach o'r gymuned.
- sicrhau fod y broses o ddewis yn rhoi ystyriaeth briodol a theg i ymgeiswyr sydd â'r gallu ond nid y profiad a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer swydd.
- darparu hyfforddiant i ddarpar ymgeiswyr fel y gallant fod yn fwy cymwys ar gyfer swyddi.
- symud y rhwystrau sy'n atal llawer o bobl rhag derbyn swyddi (e.e. amser i ffwrdd o'r gwaith, gofal plant etc.).

3.21 Mae cyfle cyfartal yn ganolog i gyfrifoldebau'r Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, yn ystod ei flwyddyn gyntaf, wedi helpu'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu strategaeth blaengar a deinamig er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael lle ym mhob un o'n polisïau, rhaglenni ac ymarferion. Mae cryn dipyn o waith i'w wneud eto a bydd y Pwyllgor yn pwysleisio'r neges hon drwy gydol y flwyddyn nesaf.

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Mehefin 2000

ATODIAD A

ARCHWILIAD CYDRADDOLDEB Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL – Y SEFYLLFA SYLFAENOL

ATODIAD A ARCHWILIAD CYDRADDOLDEB Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL – Y SEFYLLFA SYLFAENOL

	Diffyg	Ymwybyddiaeth	Deall	Cymhwysedd	Rhagoriaeth
	1	2	3	4	5

Nodau Busnes, Strategaeth a Systemau Rheoli	Dim cysylltiad amlwg rhwng Cyfle Cyfartal a nodau busnes. Dim ystyriaeth i gyfle cyfartal mewn systemau rheoli	Cyfeiriad Cyffredinol at Gyfle Cyfartal mewn Cynlluniau Is-adrannol Rhai swyddogaethau (e.e. Hyfforddiant arbennig) ar waith i gefnogi cyfle cyfartal	Cyfle Cyfartal yn cael ei grybwyll mewn Cynlluniau Is-adrannol. Polisïau a gweithdrefnau Is-adrannol yn ystyried cyfle cyfartal yn ystod y cam cynllunio.	Nodau strategol ar gyfer Cyfle Cyfartal yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau is-adrannol. Cyfle Cyfartal yn cael ei ystyried yn werth craidd wrth ddatblygu Polisïau a gweithdrefnau Is-adrannol.	Buddion moesegol a busnes Cyfle Cyfartal yn hanfodol i strategaeth a chynlluniau is-adrannol. Cyfle Cyfartal yn elfen hanfodol o bob system reoli, ac yn hybu diwylliant cyfle cyfartal.
Canfyddiad o **Ymrwymiad ar y Lefel Uchaf**	Dim cefnogaeth nac ymrwymiad i'w canfod	Datgan cefnogaeth yn gyhoeddus, a rhai gweithgareddau i'w canfod. Cyfle Cyfartal yn ymddangos yn achlysurol ar agenda cyfarfodydd rheolaeth.	Datgan cefnogaeth yn gyhoeddus, a gweithgareddau i'w canfod yn aml. Cyfle Cyfartal yn ymddangos ar y rhan fwyaf o agendâu cyfarfodydd rheolaeth	Uwch Reolwyr yn cyfathrebu'n gyson ynghylch Cyfle Cyfartal ac yn dangos cefnogaeth Cyfle Cyfartal yn nodwedd reolaidd mewn cyfarfodydd	Uwch Reolwyr yn cyfathrebu ynghylch Cyfle Cyfartal ac yn ei arddangos a'i hybu yn fewnol ac allanol Cyfle Cyfartal yn nodwedd o bob cyfarfod
Monitro a Chymhwyso	Dim monitro	Monitro ad hoc neu rannol, ond heb ganolbwynt, heb fod yn gynhwysfawr a heb ei ddefnyddio i greu newid	Monitro cyson sy'n arwain at rai newidiadau, ond nid mewn ffordd systematig	Yr holl brosesau a gweithdrefnau priodol yn cael eu monitro fel rhan o raglen dreiglol o safbwynt Cyfle Cyfartal	Monitro cynhwysfawr wedi'i ganolbwyntio ar gyfle cyfartal yn rhan hanfodol o'r broses adolygu a chynllunio. Ar waith.
Cyfarwyddyd a Hyfforddiant	Dim hyfforddiant na chyfarwyddyd penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal. Dim cydnabyddiaeth o'r angen am hyfforddiant neu gyfarwyddyd mewn cydraddoldeb.	Cydnabod yr angen am hyfforddiant a chyfarwyddyd mewn cydraddoldeb, ond dim darpariaeth benodol ar gyfer yr holl staff. Hyfforddiant ar gael i bersonél allweddol	Hyfforddiant cydraddoldeb ar gael i'r holl staff, ond heb ei hyrwyddo. Cyfarwyddyd ar gael ond heb ei ledaenu.	Hyfforddiant cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo a'i gynnwys fel rhan o'r cynllun Hyfforddi a Datblygu Adrannol. Deunydd cyfarwyddyd ar gael, lledaenu ad hoc	Hyfforddiant penodol a gorfodol mewn Cyfle Cyfartal yn cael ei werthuso ac yn elfen hanfodol o ddarpariaeth hyfforddiant adrannol. Deunydd cyfarwyddyd ar gael ac yn cael ei ledaenu'n rheolaidd.
Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymwybyddiaeth	Dim proses i gyfathrebu polisïau a gweithdrefnau Cyfle Cyfartal. Dim ymgynghori allanol	Ymagwedd ad hoc i gyfathrebu ac ymgynghori	Cyfathrebu materion sy'n ymwneud â Chyfle Cyfartal mewn ffordd sy'n diwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd. Ymgynghori rheolaidd â grwpiau cyfyngedig	System yn ei lle i annog cyfraniadau ac adborth. Ymgynghori rheolaidd ag ystod eang o grwpiau priodol	Systemau gwybodaeth ac adborth yn eu lle. Maent yn galluogi'r cyfranogiad a'r ymroddiad mwyaf. Ymgynghori rheolaidd ag ystod eang o grwpiau priodol o'r dechrau

ATODIAD B:

Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL – Y CYLCH GWAITH

Detholiad o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Adran 48

1. Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau fod ei fusnes yn cael ei reoli gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Adran 120

1. Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau fod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.
2. Ar ôl pob blwyddyn ariannol bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys:

    a) Datganiad o'r trefniadau a wnaed yn unol ag is-adran (1) a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol honno; a

    b) Datganiad ynghylch pa mor effeithiol y bu'r trefniadau hynny mewn hyrwyddo cyfle cyfartal.

RHEOL SEFYDLOG 14 – Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

Teitl a Chylch Gwaith

14.1. Fe geir Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a fydd yn archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth gyflawni ei swyddogaethau a rheoli'i fusnes, yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y trefniadau hynny a'u heffeithiolrwydd. Bydd hefyd yn adolygu ac yn adrodd i'r Cynulliad ei gasgliadau ynghylch yr Adroddiadau Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal.

Aelodaeth

14.3 Bydd y Cynulliad yn ethol un o Ysgrifenyddion y Cynulliad i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir hyd y mae'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad ac ystyried y fantais o gael cynrychiolaeth o bob pwyllgor pwnc ar y Pwyllgor. Gall Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor fynychu ei gyfarfodydd pan fydd y rhain yn agored i'r cyhoedd. Gall unrhyw gyfryw Aelodau sydd â materion etholaethol neu ranbarthol penodol i'w trafod mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor ofyn i'r cadeirydd cyn unrhyw gyfarfod am ganiatâd i annerch y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni all yr Aelodau hyn bleidleisio. Gall Aelodau hefyd ysgrifennu at y Cadeirydd i wneud cais i'w sylwadau ar unrhyw agwedd o waith y Pwyllgor gael eu rhoi gerbron y Pwyllgor i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf; a bydd y cadeirydd yn trefnu i hynny ddigwydd.

14.4 Heb leihau effaith paragraff 8.14, bydd y Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, yn penodi ymgynghorwyr yn ôl y galw fel y gall sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau pobl dan fantais gael eu cyflwyno iddo.

Adroddiadau

5. Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd yn ogystal â chyflwyno'i adroddiad blynyddol.

ATODIAD C

AELODAETH Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

Yr aelodau o'r Pwyllgor, a etholwyd ar 5 Ebrill 2000 yw:

Edwina Hart (Cadeirydd) Llafur Gwyr

Lorraine Barrett Llafur De Caerdydd a Phenarth

Christine Chapman Llafur Cwm Cynon

Richard Edwards Llafur Preseli Sir Benfro

Alison Halford Llafur Delyn

Helen Mary Jones Plaid Cymru Llanelli

Gareth Jones Plaid Cymru Gogledd Cymru

Janet Ryder Plaid Cymru Gogledd Cymru

Glyn Davies Ceidwadwr Canolbarth a Gorllewin Cymru

David Melding Ceidwadwr Canol De Cymru

Kirsty Williams Dem. Rhydd. Brycheiniog a Maesyfed

Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Jane Hutt (Llafur: Bro Morgannwg) o 23 Mehefin 1999 tan 4 Ebrill 2000

Roedd Carwyn Jones (Llafur: Pen-y-bont ar Ogwr) yn aelod o 23 Mehefin 1999 tan 4 Ebrill 2000

-

-